# CYNGOR CYMUNED LLANDYGAI
# LLANDYGAI COMMUNITY COUNCIL


| | |
|---|---|
| Clerc a Phrif Swyddog Cyllid | 26 Stryd Fawr |
| *Clerk and Chief Financial Officer* | Bethesda |
| **Bethan Roberts** | Gwynedd |
| Rhif Ffôn: 01248 602131 | LL57 3AE |
| Ebost: CyngorLlandygai@ogwen.org | |


Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol o'r Cyngor a gynhaliwyd
yn Neuadd Goffa, Mynydd Llandygai
**Nos Iau 18 Gorffennaf 2024 am 18.30**

**PRESENNOL:**
Y Cynghorydd Lowri Jones
Y Cynghorydd Dafydd Owen
Y Cynghorydd Dafydd Roberts
Y Cynghorydd Huw Jones
Y Cynghorydd Mary Hayes
Y Cynghorydd Anwen Jones
Y Cynghorydd Mair O Pierce
Y Cynghorydd Iwan Hywel
Y Cynghorydd Sian Beidas
Y Cynghorydd Gareth P Williams
Y Cynghorydd David Roberts

1. **Croesawyd** pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd, Cyng. Lowri Jones.

   **Ymddiheuriadau** gan y Cyngr. Carwyn Edwards a Beca Roberts.

2. **Cofnodion**
   **Penderfynwyd:** Penderfynwyd derbyn a chadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Mehefin 2024.

3. **Materion yn codi o'r cofnodion**

3.1 **Llwybr Rhif 3** - gwaith gwella llwybr troed - ar y gweill.

3.2 **Seddi Gwag -** Y Clerc wedi hysbysebu'r sedd wag eto, dim ymateb hyd yn hyn. Y Clerc wedi cysylltu gyda Ysgol Llandygai ynglŷn â diffyg cynrychiolaeth ar Fwrdd Llywodraethol yr ysgol - dim ymateb hyd yn hyn.

3.3 **Biniau Baw Ci –** Nodwyd fod y Cyng. Beca Roberts wedi gwneud cais am finiau newydd – un yn Sling ac un ar Lon y Grug. Cadarnhawyd fod y Cyng. Beca Roberts hefyd wedi gwneud cais am fin ar bont Penrala yn Nhregarth – ar y gweill.

3.4 **Deiseb Gwasanaeth Bws -** Adroddwyd y Cyng. Dafydd Roberts fod Sian Gwenllian AS wedi cyflwyno'r ddeiseb i Ken Skates AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru, yn y Senedd.

3.5 **Mynedfa Lon Las Ogwen ger Modurdy Pandy** – estynu'r linell wen a gosod 'road studs' coch (Ian Morgan). Adroddwyd y Clerc ei fod wedi derbyn ymgynghoriad gyda cynlluniau'r llinellau melyn – ar y gweill.

3.6 **Pontydd Penrala a Coetmor -** Gordyfiant o iorwg ar y pontydd hyn - y Clerc wedi adrodd i Gyngor Gwynedd, dim ymateb hyd yn hyn.

3.7 **Llecyn Tir Bont Twr** - Adroddwyd fod y Clerc wedi trio cysylltu gyda'r adran Lleiniau Tir yng Nghyngor Gwynedd, ond heb gael llawer o lwc. Y Clerc i gysylltu â'r adran gyfreithiol. Y Clerc hefyd i ymateb i Savills i nodi ein bod yn y broses o gael cyngor ychwanegol ar y mater.

**3.8 Cae Peldroed Tregarth -** Adroddwyd y Clerc ei fod wedi cysylltu gyda Chyngor Gwynedd am y pystiau gôl sydd wedi diflannu oddi ar y cae. Adroddwyd Cyngor Gwynedd fod clybiau pêl-droed Bethesda ac Ogwen Tigers hefo diddordeb mewn cael les ar gyfer y cae, a'u bod yn awyddus iawn i geisio cael arian grant i uwchraddio'r cae peldroed at safonau disgwyliedig y FAW. Nodwyd oedd y pystiau oedd yno wedi pydru ac mewn cyflwr gwael, felly dyna pam cafodd ei dynnu oddi ar y cae. Nodwyd y Clerc siom y Cyngor eu bod heb gael gwybod am hyn a bod plant Tregarth yn methu allan a bod angen goliau newydd ar y cae cyn gynted a bu'r modd. Penderfynwyd gwahodd cynrychiolaeth o'r clybiau pêl-droed i gyfarfod mis Hydref i drafod eu cynlluniau ar gyfer y cae.

**3.9 Car a threlar ger Bro Syr Ifor -** Adroddwyd y Clerc fod y car wedi cael ei gasglu ond fod y trelar dal ar y safle. Y Clerc wedi cysylltu gydag Adra nifer o weithiau am y trelar - ar y gweill.

**3.10 Croesffordd Llwybr Main/Lon y Grug -** Nodwyd fod angen ail-baentio'r marciau ffordd ar y groesffordd hon, y Clerc i hysbysu Cyngor Gwynedd.

**3.11 Pont y Pandy -** Adroddwyd fod y Clerc wedi ysgrifennu at NMWTRA ynglŷn â phryderon y Cyngor. Derbyniwyd ymateb yn cadarnhau fod trefniadau mewn lle i dorri'r coed bach sydd wedi tyfu, ond gan nad yw'r coed preifat yn tyfu drosodd ac yn rhwystro defnyddwyr, nid oes modd gorfodi iddynt gael eu torri.

**4. Gohebiaeth**

Pawb wedi cael copi o'r rhestr 'Crynodeb o ohebiaeth Gorffennaf 2024'

**4.1 Llythyr ymateb i eiddo gwag yn Nhregarth -** Adroddwyd yn ein cyfarfod diwethaf fod gan y Cyngor bryderon ynglŷn â nifer o eiddo cymdeithasol gwag yn ardal Dregarth. Nodwyd fod y Clerc wedi ysgrifennu llythyr o gŵyn at Brif Weithredwr Cymdeithas Tai Adra, Iwan Trefor Jones, gan ddanfon copi at y Cyng. Beca Roberts a Sian Gwenllian. Derbyniwyd llythyr o ymateb gydag eglurhad ac amserlen ar gyfer gosod y tai gwag, y Cyngor i gadw llygaid.

**5. Polisi Iaith y Cyngor**

Yn dilyn trafodaeth, penderfynwyd bydd y Cyng. Iwan Hywel yn creu templed a'r Cyngor i ystyried mabwysiadwyd. Y Clerc i holi Un Llais Cymru am bolisïau tebyg ac am wersi Cymraeg.

**6. Llwybr Trawsnewid Partneriaeth Ogwen**

Cylchredwyd y ddogfen hon i'r aelodau a thrafodwyd y cynnwys. Cytunwyd i wahodd Meleri Davies i'r cyfarfod ym mis Medi.

**7. Gwaith y mis**

**7.1 Lon Las Ogwen -** Adroddwyd fod angen torri gordyfiant ar Lon Las Ogwen rhwng Moelyci a Felin Hen - y Clerc i hysbysu Cyngor Gwynedd.

**7.2 Llwybr rhif 24, Moelyci -** Nodwyd fod angen torri gordyfiant ar y llwybr hwn, y Clerc i ofyn i'r contractwr.

**7.3 Ras y Mynydd –** Adroddwyd fod y ras wedi ei ganslo flwyddyn yma oherwydd problemau gyda yswiriant oherwydd y gwaith coed yn Moelyci. Y Clerc i holi'r trefnwyr.

**7.4 Allt Cerrigllwydion -** Nododd y Cyng. Mair Owen ei fod wedi derbyn nifer o gwynion fod y ffordd hon yn gul ac yn gyfyng iawn, a bod trigolion yn poeni gan y bydd mwy o ddefnydd o'r ffordd yn dilyn y datblygiad tai yng Nghae'r Gors. Y Cyngor i gadw llygaid ar y sefyllfa.

**7.5 Cau'r ffyrdd - Tan Lon -** Nodwyd fod y ffordd ger Tan Lon wedi gorfod cau dwywaith yn yr wythnosau diwethaf oherwydd gwaith cynnal gan Dŵr Cymru. Adroddwyd fod Morrisons Utility wedi cloddio'r rhan anghywir o'r ffordd yn y dechrau a dyna pam oedd rhaid cau'r ffordd dwywaith. Y Clerc i ysgrifennu at Dŵr Cymru i nodi ein siom am gau'r ffyrdd ac i amlygu'r anghyfleustra y mae'n ei achosi i'r trigolion lleol.
**7.6 Zip World – Talu am barcio –** Nodwyd siom y Cyngor fod cwmni Zip World bellach yn codi ffi am barcio ar y safle, gyda isafswm o £3.

**8. Adroddiad Cynrychiolwyr**
**8.1 Canolfan Tregarth** - Derbyniwyd diweddariad gan y Cyng. Dafydd Owen am ddatblygiadau diweddar yn y Ganolfan.
**8.2 Neuadd Goffa -** Derbyniwyd diweddariad gan y Cyng. Mary Hayes am ddatblygiadau diweddar yn y Neuadd.
**8.3 Ysgol Tregarth** - Adroddwyd fod yr ysgol wedi cynnal prynhawn mabolgampau ar gae bêl-droed Tregarth flwyddyn yma, gan ddefnyddio cyfleusterau eraill yn y Ganolfan. Braf iawn oedd cael gweld y cae yn cael ei ddefnyddio gan yr ysgol.

**9. Adroddiad Ariannol, Rheoli Risg a Gweinyddu**
**9.1** Pawb wedi derbyn Adroddiad Ariannol gyda rhestr taliadau, derbyniadau a mantolen am flwyddyn gyfredol. Penderfynwyd derbyn yr adroddiad.

**10. Taliadau**
Awdurdodwyd y taliadau canlynol:

| | | |
|---|---|---|
| Partneriaeth Ogwen | Gwasanaeth Clercio | £10,650.79 |
| T Shaw | Torri gwair o amgylch y Canolfan | £100.00 |
| T Shaw | Torri Llwybrau – toriad cyntaf | £3,100.00 |

**11. Penderfyniadau Cynllunio**

| | |
|---|---|
| **C18/0767/16/LL** | Coed Wern, Glasinfryn<br>Datblygiad llety gwyliau (cynllun diwygiedig) sy'n golygu:- Gosod sylfeini ar gyfer cabannau gyda decio cysylltiedig. Gosod sylfeini ar gyfer podiau glampio. Seilwaith cysylltiedig i gynnwys ffyrdd mewnol, mannau parcio, systemau draenio cynaliadwy ynghyd a draenio dŵr aflan. Tirlunio meddal a chaled gan gynnwys torri rhai coed, cadw coed ac ymgymryd â gwelliannau i'r goedlan bresennol. Codi derbynfa/adeilad gwerthiant ynghyd ac ail-orchuddio'r adeilad presennol a'i ddefnyddio fel hwb e-beicio gyda phwyntiau gwefru trydan.<br>**Penderfyniad:** ar y gweill. |
| **C23/0728/16/LL** | Cae Clyd Dob, Tregarth<br>Codi annedd teuluol<br>**Penderfyniad:** ar y gweill. |

| | |
|---|---|
| **C24/0004/16/LL** | Land at Maes Talog, Tregarth<br>Codi annedd marchnad agored sengl deulawr a garej ddwbl ar wahân.<br>**Penderfyniad:** ar y gweill. |
| **C24/0048/16/LL** | Ynys Ganol, Mynydd Llandygai<br>Adeiladu Menage gydag arwyneb tywod a ffibr gyda ffensys Post a Rheilen o'i amgylch ar gyfer defnydd preifat yn unig.<br>**Penderfyniad:** ar y gweill. |
| **C24/0219/16/LL** | Clwb Criced Bangor, Ffordd Llandygai<br>Cael gwared ar ardal ymarfer bresennol [0.02 ha] ac adeiladu ardal ymarfer newydd wedi'i gwella a'i chynyddu [0.03 Ha]<br>**Penderfyniad:** ar y gweill. |
| **C24/0251/16/LL** | Lon Las Ogwen, Porth Penrhyn<br>Gosod mainc ddur a bwrdd dehongli<br>**Penderfyniad:** Caniatawyd gyda amodau. |
| **C24/0258/16/DT** | 19 Llwybr Main, Mynydd Llandygai<br>Gosod Pwmp gwres ffynhonnell aer ar flaen yr annedd<br>**Penderfyniad:** ar y gweill. |
| **NP3/16/28C** | Tir ger Maes Parcio Ogwen, Nant Ffrancon, Bethesda.<br>Cynyddu uchder y tŵr telathrebu 15.5m presennol i 17.9m ar gyfer antenau ychwanegol a gosod offer ychwanegol ar y ddaear mewn compownd estynedig<br>**Penderfyniad:** ar y gweill. |
| **C24/0426/16/DT** | Cae Herfyn Cottage Tal Gae, Tregarth<br>Hafdy pren newydd i gymryd lle'r presennol<br>**Penderfyniad:** ar y gweill. |
| **C24/0371/16/LL** | Gorsaf Bws Arriva, Ystad Ddiwydiannol Llandygai<br>Newid Defnydd Swyddfa Depo Bysiau Arriva, Ystad Ddiwydiannol Llandygai, Bangor, LL57 4YH i ganiatáu Canolfan Profi Gyrru Galwedigaethol (defnydd unigryw)<br>**Penderfyniad:** Caniatawyd gyda amodau. |
| **C24/0422/16/LL** | Heddlu Gogledd Cymru, The Western Traffic Base, Llandygai,<br>Tynnu'r gatiau presennol a gosod gatiau trydan mwy yn eu lle. |

**Penderfyniad:** ar y gweill.

## 12. Ceisiadau Cynllunio

Dim.

## 13. Unrhyw fater brys arall

Dim.

## 14. Crynodeb Llais Ogwan

Nodwyd nid oes argraffiad Llais Ogwan yn ystod mis Awst, felly ni fydd angen crynodeb.